**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**23ain Hydref 2006**

## BREINLEN CYMRU AR GYFER CYNORTHWYO A DATBLYGU AELODAU

**Adroddiad gan Rhian Evans,**
**Swyddog Cyswllt Aelodau**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Ceisio cymeradwyaeth yr aelodau i Freinlen Ddrafft yr Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau, a'r dogfennau cysylltiedig Disgrifiadau o'r Rolau a Manylion y Person ar gyfer Aelodau'r Awdurdod.

## Cefndir

**2.** Gwobr yw Breinlen Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr (y Freinlen) a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) ar y cyd â'r awdurdodau unedol i gydnabod cyraeddiadau'r awdurdodau mewn perthynas â chynorthwyo a datblygu'r aelodau. Mae amcanion uchel y Freinlen yn ceisio sicrhau bod yr awdurdodau yn cael eu gwasanaethu gan aelodau effeithiol sy'n gweithio i sicrhau/gwella llywodraeth gorfforaethol, democratiaeth leol a gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y rhan fwyaf o'r aelodau eisoes yn gyfarwydd â'r Freinlen a'i hamcanion o fewn eu cynghorau eu hunain.

**Cefndir** *(parhad)*

**3.** Er mwyn cael y Freinlen, yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad yr aelodau, rhaid i'r awdurdodau hefyd ddangos eu hymrwymiad ym maes gwasanaethau cefnogol i'r aelodau, adnoddau i'r aelodau a threfniadau cyfansoddiadol.

**4.** Mae tair lefel o gyrhaeddiad, sef y Freinlen Sylfaenol, Breinlen Uwch a Gwobr Rhagoriaeth. Cafodd ei mabwysiadu'n eang gan awdurdodau lleol, ac mae nifer o awdurdodau wrthi'n llunio eu ceisiadau am y lefel sylfaenol. Unwaith y bydd y ceisiadau wedi dod i law ac wedi i WLGA eu gwerthuso, byddant yn cael eu hasesu gan dîm adolygu cymheiriaid a byddant hwy, fel rhan o'r broses asesu, yn ymweld ag awdurdodau i gwrdd â'r aelodau a'r swyddogion ac i gasglu gwybodaeth.

**Gwybodaeth**

**5.** Wedi lansio'r Freinlen ym Medi 2005, daeth staff o'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru at ei gilydd i gyfarfod â chynrychiolydd o WLGA gyda'r bwriad o sicrhau bod awdurdodau un pwrpas, fel yr awdurdodau tân ac achub, pan fyddant yn gwneud cais at gydnabyddiaeth gan y Freinlen yn osgoi gorfod dyblygu gwasanaethau a hyfforddiant sydd eisoes yn cael eu cynnig i'r aelodau gan eu hawdurdodau cartref.

**6.** O'r herwydd, datblygwyd "Breinlen ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau: ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub". Lluniwyd Breinlen yr Awdurdodau Tân ac Achub fel ategiad i Freinlen yr awdurdodau lleol, a'i bwriad yw cydnabod y gefnogaeth benodol a roddir i'r aelodau mewn perthynas â'u rôl ar yr awdurdodau hyn.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**7.** Er mwyn cyrraedd y Freinlen Sylfaenol, mae'n rhaid i bob awdurdod fabwysiadu Disgrifiadau o Rolau dan y Freinlen ar gyfer pob swydd ar yr Awdurdod. Felly, ar yr un pryd â datblygu'r Freinlen ddrafft ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub fe luniwyd y dogfennau drafft "Disgrifiadau o Rolau a Manylion y Person ar gyfer Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub" gan y swyddogion. Addasiadau o ddogfennau'r awdurdodau lleol yw Breinlen yr Awdurdod Tân ac Achub, y Disgrifiadau o'r Rolau a Manylion y Person.

**8.** Ar Fedi 8fed 2006 ysgrifennodd WLGA at Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru gan amgáu copïau o'r dogfennau drafft y cyfeirir atynt uchod ac yn gofyn am eu sylwadau arnynt. Mae copïau o'r llythyr a'r dogfennau drafft ynghlwm er gwybodaeth i'r aelodau. Er bod y llythyr yn gofyn i awgrymiadau am welliannau gael eu gwneud erbyn Medi 30ain 2006, mae'r dyddiad, wedi ymgynghori ag WLGA, wedi ei ymestyn tan ddiwedd Hydref 2006 er mwyn i bob awdurdod gael digon o amser i ddosbarthu'r dogfennau i'r aelodau.

**9.** Cafodd yr aelodau a ddaeth i Seminar yr Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub Cymru yn Llandrindod ar Fedi 19eg gyflwyniad ar y Freinlen gan gynrychiolydd o WLGA.

**10.** Yn ei ganllaw ar Gynlluniau Lleihau Risg, datganodd Llywodraeth y Cynlluniad yn glir: "ni all Awdurdodau Tân ac Achub ganolbwyntio ar y gymuned yn unig, mae'n rhaid iddynt ystyried eu risg corfforaethol". Trwy fabwysiadu egwyddorion y Freinlen a'r disgrifiadau o rolau a manylion y person cysylltiedig, byddai hynny'n mynd rywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â'r risgiau corfforaethol oherwydd y byddai raid i'r Awdurdod, er mwyn cael statws y Freinlen, asesu ac ymdrin ag anghenion yr

aelodau o ran hyfforddiant. Er bod goblygiadau posib yn ariannol i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi'r aelodau, y disgwyl yw y gellir rheoli'r rhain o fewn y cyllidebau presennol ar gyfer lefel sylfaenol y Freinlen. Mae'r fersiwn ddrafft o Gynllun Lleihau Risg yr Awdurdod ar gyfer 2007/08 eisoes wedi tynnu sylw at y Freinlen fel ffordd bosib i fynd i'r afael â risg gorfforaethol.

**11.** Tra mae'r tri awdurdod tân ac achub yn ceisio cytuno cyn belled ag y bo modd ar ddisgrifiadau safonol o'r rolau, bydd rhywfaint o le i newidiadau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn ateb gofynion yr awdurdodau unigol.

**12.** Unwaith i'r awdurdodau gytuno ar y Freinlen a'r disgrifiadau/ manylion cysylltiedig, a chyn llofnodi Datganiad o Fwriad i wneud cais am Freinlen Sylfaenol, sef rhywbeth sy'n raid iddo gael ei wneud mewn cyfarfod o'r Awdurdod llawn, bydd y swyddogion yn cynnal ymarferiad hunanasesu yn erbyn meini prawf y Freinlen.

## Argymhellion

**13.** Bod yr aelodau'n ystyried y dogfennau sydd ynghlwm;

**13.1** yn cymeradwyo'r fersiwn ddrafft o'r Freinlen ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau;
**13.2** yn cymeradwyo fersiynau drafft y dogfennau cysylltiedig Disgrifiadau o'r Rolau a Manylion y Person; a
**13.3** phenderfynu ymgeisio am gydnabyddiaeth dan y Freinlen maes o law.